Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Rhodri Talfan Davies
BBC Cymru
3, Sgwâr Canolog
Caerdydd
CF10 1FT

Dyddiad | Date: 11 Mawrth 2021

Pwnc | Subject: Gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar y BBC

Annwyl Rhodri,

Roeddwn am ddiolch i chi am ddod i gyfarfod y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar 4 Mawrth 2021 i drafod adroddiad blynyddol a chyfrifon y BBC. Roedd aelodau'r Pwyllgor hefyd yn falch o glywed gan Tim Davie, Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC. Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn ato er gwybodaeth.

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch gynnig rhoi mwy o fanylion i'r Pwyllgor ar ychydig o bwyntiau.

**Amrywiaeth gweithlu'r BBC**

Yn ystod y cyfarfod, gwnaethoch ddweud bod ffigurau amrywiaeth y gweithlu yn yr adroddiad blynyddol yn cael eu cyflwyno ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn hytrach na'r cenhedloedd unigol a gwnaethoch gynnig rhannu ffigurau gweithlu Cymru â ni.

Rwy'n credu y byddai'n ddefnyddiol pe bai data ar gael i'r cyhoedd graffu ar berfformiad BBC Cymru yn hyn o beth. Byddem yn ddiolchgar pe gallai'r BBC ddarparu i ni, a chyhoeddi'n barhaus – naill ai Adolygiad Rheoli Blynyddol neu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BBC Cymru – y data presennol ar amrywiaeth staff ar y sgrin ac oddi arni. Hefyd, a allwch ddarparu targedau ar gyfer gwella cynrychiolaeth staff ar y sgrin ac oddi arni a thargedau penodol sy'n ymwneud ag uwch dimau?

**Cyrchu cynnwys y BBC ar alw**

Gwnaethom drafod y ffigurau ar gyfer cyrchu cynnwys y BBC ar iPlayer. O gofio poblogrwydd defnyddio cynnwys fideo ar-lein, hoffai'r Pwyllgor allu craffu ar y data'n fanylach. Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r BBC yn cyhoeddi – naill ai yn Adolygiad Rheoli neu Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon BBC Cymru – amrywiaeth o ddata i alluogi'r perfformiad hwn i gael ei asesu'n annibynnol, gan gynnwys:

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

- Cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn mewn meysydd allweddol o berfformiad ar-lein;
- Meincnodau diwydiant priodol i alluogi perfformiad y BBC yn y meysydd hyn i gael ei asesu'n annibynnol.

**Gwariant y BBC yng Nghymru**

Mewn ymateb i gwestiwn am y ffaith bod ffigurau a ddangosir yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dangos y gwariodd y BBC, yn 2019-20, bron 70 y cant yn fwy ar gynnwys lleol Saesneg yn yr Alban nag yng Nghymru, gwnaethoch ddweud y canlynol:

> ‘We are looking at a commitment in Wales that straddles two languages, whereas in Scotland, the primary investment is all into English language TV. So, it depends how you want to look at it. If you want to look at spend per head, it is certainly the case that the expenditure in Wales is ahead of where we are in Scotland. There are many different ways of cutting it, but in terms of absolute spend, they are broadly comparable, it’s just we are obviously, serving in both languages.’

Nid wy’n argyhoeddedig mai asesu gwariant yng Nghymru o ran gwariant y pen yw'r ffordd orau o asesu gwerth am arian i gynulleidfaoedd Cymru. O gofio bod yn rhaid i'r BBC ddarparu ar gyfer dwy iaith, mae'n anochel y caiff adnoddau eu hestyn ymhellach yng Nghymru.

Mae'r aelodau'n awyddus i’r anghyfartalwch hwn gael ei leihau, a byddwn yn argymell bod pwyllgor olynol yn y Chweched Senedd yn mynd ar drywydd y mater hwn.

Yn gywir,

Bethan Sayed.

Bethan Sayed AS

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu